Hawdd ei Ddeall

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Gwent
Public Services Board

# Cynllun llesiant ar gyfer Gwent

## Beth fyddwn ni yn ei wneud yn y 5 mlynedd nesaf i wella llesiant pobl yng Ngwent




Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Cynllun Llesiant ar gyfer Gwent**'.

**Ebrill 2023**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 36**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent**. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

**E-mail:** GwentPSB@caerphilly.gov.uk

Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn Hawdd ei Ddeall' gan ddefnyddio Photosymbols. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys

Tudalen

**Cyflwyniad....................................................................................4**

**Sut rydyn ni wedi gwneud y cynllun yma.......................................6**

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol..........................................9**

Y 7 nod llesiant........................................................................9

5 ffordd o weithio....................................................................11

Egwyddorion Marmot..............................................................12

**Einhegwyddorion.........................................................................15**

**Ein hamcanion llesiant..................................................................18**

5 cam i'n helpu ni i gyflawni ein hamcanion llesiant ..........................22

**Beth sy'n digwydd nesaf? ............................................................35**

**Geiriau anodd.............................................................................36**

# Cyflwyniad

Ni ydy **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent**.



Mae **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** wedi'u sefydlu ym mhob ardal o Gymru. Rydyn ni yn helpu **cyrff cyhoeddus** i weithio'n well gyda'i gilydd.




**Cyrff cyhoeddus** ydy sefydliadau sy'n cael arian gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwasanaethau i bobl yng Nghymru. Er enghraifft, y GIG a gwasanaethau Tân ac Achub.



Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Blaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd, Sir Fynwy, a Thorfaen wedi dod at ei gilydd i ffurfio **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent**.



Fe fydd dod at ein gilydd fel hyn yn ei gwneud hi'n haws i ni weithio gyda'n gilydd.





Dyma ein cynllun **llesiant** cyntaf ar gyfer Gwent. Mae'n dweud beth fyddwn ni'n ei wneud dros y 5 mlynedd nesaf i wella **llesiant** yng Ngwent.



Mae **llesiant** yn meddwl sut rydyn ni yn gwneud fel pobl, cymunedau ac fel rhanbarth. Nawr ac yn y dyfodol.

Mae **llesiant** yn meddwl ein profiadau fel pobl, pa mor braf ydy'r amgylchedd o'n cwmpas a sut rydyn ni yn byw gyda'n gilydd fel cymuned.




Mae'r cynllun yma yn dweud beth ydy ein prif amcanion A'r camau y byddwn ni yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion hyn.

# Sut rydyn ni wedi gwneud y cynllun yma




Fe wnaethon ni ddefnyddio'r **Asesiad Llesiant** i ddarganfod beth ydy'r prif faterion yn ein hardal ni. A sut rydyn ni'n gallu cyflawni mwy drwy weithio gyda'n gilydd.



Mae **Asesiad Llesiant** yn ffordd o edrych ar lesiant ein hardal. A beth sydd yn bwysig i ni er mwyn ein **llesiant** yn y dyfodol.

Fe wnaeth yr **Asesiad Llesiant** ddangos bod:



- Rhaid i ni roi cyfleoedd teg a **chyfartal** i bawb i wella eu hiechyd a'u **llesiant**. Mae hyn yn meddwl cael cartrefi da i fyw ynddyn nhw.




- Rhaid i ni weithio i wneud ein cymunedau'n gryfach ac yn fwy diogel. Fe ddylai cymunedau allu cefnogi ei gilydd a chydweithio er mwyn cael dyfodol gwell.



- Mae angen gwneud gwaith i helpu’r **amgylchedd** – ein tir, ein môr a’n awyr.  Mae hyn yn meddwl delio gyda newid hinsawdd.

Dros haf 2022 fe wnaethon ni fwy o waith i ddeall y materion yma yn well. Fe wnaethon ni:





- Edrych ar wybodaeth gan lawer o wahanol lefydd a phobl.



- Defnyddio’r wybodaeth o swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol.



- Dysgu gan eraill ac o enghreifftiau o waith da o bob rhan o Gymru a thu hwnt.




Fe wnaethon ni fersiwn drafft o'r cynllun yma. A gofyn i bobl beth oedden nhw'n feddwl ym mis Hydref 2022.



Roedden ni'n defnyddio beth roedden ni wedi ei ddysgu, a beth roedd pobl wedi ei ddweud wrthyn ni i ysgrifennu'r cynllun yma.


# Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol




Mae gan Gymru ddeddf o’r enw **Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol**.



Mae’r ddeddf yma yn meddwl sut mae ein penderfyniadau a’n cynlluniau yn effeithio ar **lesiant** Cymru nawr ac yn y dyfodol.




Mae’r ddeddf wedi ei seilio ar 7 nod **llesiant** i Gymru. Rydyn ni wedi defnyddio’r 7 nod yma i’n helpu ni i wneud y cynllun yma.

## Y 7 nod llesiant

Dyma’r 7 nod **llesiant** i Gymru:



1. **Cymru lewyrchus** – Mae hyn yn meddwl Cymru sydd yn gwneud yn dda fel gwlad. Mae gan bobl swyddi a busnesau da sydd yn gwneud yn dda.



2. **Cymru wydn** - Mae hyn yn meddwl Cymru sydd yn ddigon cryf i ddelio â materion a newidiadau mawr.



3. **Cymru iachach** - Mae hyn yn meddwl cadw'n iach.



4. **Cymru fwy cyfartal** - Mae hyn yn meddwl bod pob person yn cael y cyfle i gyrraedd eu potensial.



5. **Cymru gyda chymunedau cydlynus** - Mae hyn yn meddwl cael cymunedau da, diogel.



6. **Cymru gyda diwylliant bywiog a iaith Gymraeg ffyniannus** - Mae hyn yn meddwl cael pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau. A defnyddio'r Gymraeg.



7. **Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang** - Mae hyn yn meddwl y ffordd y mae'r pethau rydyn ni'n eu gwneud yng Nghymru yn cael effaith ar y byd.

## 5 ffordd o weithio

Rydyn ni hefyd wedi dilyn y 5 ffordd o weithio o **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** i wneud y cynllun yma. Dyma nhw:




1. Gweithio gyda mudiadau eraill a phobl yn y gymuned.



2. Cydweithio'n well i helpu i wneud yn siŵr bod y cynlluniau **llesiant** yn cael eu bodloni.



3. Gwneud yn siŵr bod pobl yn cael y cyfle i gymryd rhan lawn yn y gwaith rydyn ni'n ei wneud.




4. Gwneud cynlluniau tymor hir ar gyfer y dyfodol.



5. Gweithio gyda phobl i ddod i wybod am broblemau cyn iddyn nhw ddigwydd.

## Egwyddorion Marmot

Rydyn ni hefyd am ddefnyddio'r **8 egwyddor Marmot** yn ein cynllun **llesiant**.

Dyma'r **8 egwyddor Marmot**:



1. Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn.



2. Helpu plant, pobl ifanc, ac oedolion i wneud y gorau o'u galluoedd a chael rheolaeth dros eu bywydau.



3. Cael swyddi teg a gwaith da i bawb.




4. Gwneud yn siŵr fod pawb yn cael bywyd iach.



5. Cael llefydd a chymunedau iach a **chynaliadwy**.

Mae **cynaliadwy** yn meddwl helpu rhywbeth i bara am amser hir.



6. Cryfhau'r ffyrdd rydyn ni yn cefnogi pobl i beidio mynd yn sâl.



7. Delio gyda **hiliaeth** a **gwahaniaethu**.



Mae **hiliaeth** yn meddwl trin pobl yn annheg neu yn gas oherwydd eu hil.

**Gwahaniaethu** ydy pan fyddwch chi yn cael eich trin yn wael neu'n annheg oherwydd pethau fel eich rhyw, hil, crefydd, anabledd neu hunaniaeth rywiol.



8. Edrych ar ofalu am ein hamgylchedd a gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu aros yn iach a sut mae'r pethau yma yn gallu gweithio gyda'i gilydd.

# Ein hegwyddorion



Fel **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus** newydd rydyn ni hefyd wedi cytuno ar ein **hegwyddorion** ein hunain.




Set o werthoedd neu gredoau sy'n sail i'r ffordd rydyn ni'n gweithio ac yn ymddwyn ydy egwyddorion. Fe fyddwn ni i gyd yn gweithio ac yn gwneud penderfyniadau gyda'r **egwyddorion** yma mewn golwg.



Fe fydd ein **hegwyddorion** yn ein helpu ni i weithio'n well gyda'n gilydd a gwneud newidiadau da i Went.

**Ein hegwyddorion:**




- **Gweithio'n dda gyda'n gilydd** – rhannu gwybodaeth, arbenigedd ac adnoddau fel staff, amser ac arian pryd bynnag y mae'n bosibl. Gwybod pryd mae'n well i 1 neu 2 o bartneriaid weithio ar rywbeth, a phan ddylai pob un ohonom weithio ar rywbeth gyda'n gilydd. Ceisio osgoi ailadrodd gwaith.



- **Cyfathrebu a chynnwys pobl** – parhau i siarad gyda chi i ddeall eich pryderon a'ch syniadau. Gweithio gyda chymunedau pan rydyn ni'n gallu i gynnig atebion sy'n helpu'r rhanbarth cyfan.




- **Iaith a diwylliant Cymraeg** - Mae'r Gymraeg yn chwarae rhan bwysig ym mywyd Cymru. Ym maes addysg swyddi, iechyd a gofal cymdeithasol, cymunedau, a **diwylliant**.




**Diwylliant** ydy ein gwerthoedd cyffredin, credoau, traddodiadau a hanes. Mae'n meddwl pethau fel adeiladau, iaith, cerddoriaeth a'r celfyddydau.



Fe fyddwn ni yn annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg fwy drwy ein gwaith. A helpu ein staff i ddysgu a defnyddio'r iaith.



- **Gwneud yn siŵr ein bod yn gweithio yn y ffordd orau** - Mae angen i ni wneud yn siŵr bod y gwaith rydyn ni'n ei wneud yn gwneud gwahaniaeth. A'n bod ni'n edrych ar y rhannau cywir o'n gwaith a fydd yn gwella llesiant. Rydyn ni wedi cytuno ar 1 ffordd o edrych i weld ein bod yn gweithio'n dda.




Fe fyddwn ni yn rhoi gwybodaeth am ba mor dda rydyn ni yn ei wneud yn y cynlluniau cyflawni ac adroddiadau blynyddol. Fe fyddwn ni yn rhannu unrhyw broblemau gyda'n gilydd.

# Ein hamcanion llesiant

Mae gennym ni 2 brif amcan **llesiant**:



1. **Creu Gwent mwy teg a mwy cyfartal sy'n cynnwys pawb.**



2. **Diogelu ein hamgylchedd.**

## Creu Gwent mwy teg a mwy cyfartal sy'n cynnwys pawb




Mae'r **Asesiad Llesiant** diweddaraf wedi dangos bod ein cymunedau yn gryf. A bod llawer o bobl yn teimlo cysylltiad â lle maen nhw'n byw, ac yn falch o lle maen nhw'n byw.



Ond dydy hyn ddim yn gyfartal i bawb. Er enghraifft:

- Mae gan bobl sy'n byw mewn ardaloedd mwy tlawd iechyd gwaeth ac maen nhw'n fwy tebygol o farw yn fwy ifanc.



- Dydy plant o gartrefi mwy tlawd ddim yn gwneud mor dda yn yr ysgol.




- Ac mae rhai pobl yn profi **tlodi** er eu bod nhw'n gweithio. Yn enwedig wrth i gostau godi.

> **Tlodi** ydy pan nad oes gennych chi ddigon o arian i dalu am y pethau rydych chi eu hangen ac eisiau i fyw yn dda.



Mae llawer o bobl Gwent yn dal i deimlo'n anniogel, yn unig neu'n ynysig.



Mae llawer o bobl yn methu fforddio prynu cartref. Ac wrth i brisiau tai godi mae mwy o angen am dai cymdeithasol.

Mae'n rhaid i ni gymryd camau i stopio pethau rhag gwaethygu, oherwydd pethau fel:



- Covid-19
- Yr argyfwng costau byw
- Brexit - pan adawodd y DU yr Undeb Ewropeaidd
- Y rhyfel yn Wcráin
- Newid hinsawdd

## Diogelu ein hamgylchedd



Mae'r **Asesiad Llesiant** diwethaf wedi dangos nad ydy ein cefn gwlad, arfordir, afonydd a mannau gwyrdd mewn cyflwr da.



Mae llawer o'n planhigion a'n hanifeiliaid yn marw. Mae hyn yn gallu ei gwneud hi'n fwy anodd i ddelio gyda phethau fel newid hinsawdd a **thlodi.**

Mae cyfle i greu mwy o swyddi sy'n helpu i ofalu am ein **hamgylchedd**. Mewn meysydd fel:



- **Ynni adnewyddadwy** - mae hyn yn meddwl gwneud ynni o bethau fydd ddim yn rhedeg allan. Fel o'r haul, y gwynt a'r dŵr.



- **Datgarboneiddio** – mae hyn yn meddwl cyfyngu ar faint o **garbon deuocsid** rydyn ni'n ei ollwng pan rydyn ni'n gwneud pethau fel gwneud ynni, cynhesu ein cartrefi a gwneud cynnyrch i werthu. **Mae carbon deuocsid** yn niweidio ein **hamgylchedd**.



Fe fyddai swyddi fel hyn yn gofalu am ein **hamgylchedd**, yn gwella **llesiant** ac yn para i'r dyfodol.



Mae angen i ni wneud yn siŵr bod ein **hadnoddau naturiol** yn gallu goroesi newid hinsawdd. Mae **adnoddau naturiol** yn bethau o fyd natur rydyn ni'n gallu eu defnyddio ar gyfer bwyd, ynni a gwneud cynnyrch. Er enghraifft, aer, pridd, dŵr, pysgod.



Mae angen i ni feddwl sut rydyn ni yn defnyddio a chynhyrchu gwres, pŵer, bwyd a thrafnidiaeth wrth leihau faint o garbon rydyn ni'n ei adael i ffwrdd.




Mae angen i ni edrych ar yr holl bethau yma gyda'n gilydd i wneud yn siŵr ein bod yn gofalu am yr amgylchedd a gwella ein hiechyd a'n **llesiant.**

## 5 cam i'n helpu ni i gyflawni ein hamcanion llesiant



Dyma'r camau y byddwn ni'n eu cymryd i gyflawni ein 2 amcan **llesiant**.




Fe fyddwn ni yn ysgrifennu cynllun cyflawni ar gyfer pob cam. Mae hyn fel cynllun gweithredu fydd yn dweud pwy fydd yn gwneud beth ac erbyn pryd.




**Cam 1. Cymryd camau i leihau effaith argyfwng costau byw yn y dyfodol**



Fe fydd yr argyfwng costau byw yn gwneud **tlodi** ac anghydraddoldeb yn waeth.



Mae hefyd yn gallu cynyddu trosedd ac ymddygiad **gwrthgymdeithasol** - ymddygiad sy'n achosi ofn neu straen yn gyhoeddus. Er enghraifft gweiddi, rhegi neu ymladd yn y stryd.



Mae grwpiau gwirfoddol, grwpiau cymunedol, cynghorau ac eraill yn darparu cymorth i lawer o bobl nawr. Fe fyddan nhw'n dal ati i wneud beth maen nhw'n gallu.



Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr bod unrhyw waith neu benderfyniadau rydyn ni'n eu gwneud nawr ddim yn gwneud pethau'n fwy anodd yn y dyfodol.




Mae angen i ni gefnogi pobl i gael yr hyfforddiant a'r sgiliau cywir. Felly, maen nhw'n gallu cael swyddi da.



Mae defnyddio a chynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy lleol yn gallu:

- Darparu swyddi gwell.
- Helpu i lanhau'r amgylchedd.
- Darparu ynni rhatach i bawb.



Mae angen i ni wneud ein cartrefi a'n busnesau yn fwy **effeithlon o ran ynni**. Mae hyn yn meddwl defnyddio llai o ynni i wneud pethau fel gwres a golau yn ein cartrefi.




Ac mae angen i ni **insiwleiddio** ein hadeiladau yn well. Mae hyn yn meddwl defnyddio deunyddiau adeiladu sy'n cadw pethau fel gwres y tu mewn.



Fe fydd gwneud y pethau yma yn creu cyfleoedd i fusnesau lleol.



Rydyn ni’n gallu defnyddio technoleg i ddarparu gwasanaethau mewn gwahanol ffyrdd.




Yn ystod pandemig Covid-19 fe wnaethon ni ddechrau gweithio mewn ffordd wahanol. Roedd gwasanaethau yn cael eu darparu yn nes at adref neu dros y cyfrifiadur neu’r ffôn.




Mae angen i ni wneud yn siŵr bod unrhyw newidiadau yn ateb anghenion y bobl sy’n eu defnyddio.



Fe fydd cynhyrchu mwy o fwyd yn lleol yn ein helpu ni i fwyta’n iach ar gost is. Fe fydd hyn hefyd yn well i’n **hamgylchedd**.

**Cam 2. Darparu cartrefi da, fforddiadwy sy'n ateb anghenion pobl**




Mae cael cartref da yn bwysig iawn i **lesiant** person. Ac mae'n fater pwysig i'n cymunedau.



Mae pobl yn gallu bod yn berchen ar eu cartrefi neu maen nhw'n gallu eu rhentu nhw. Mae'n wahanol ar draws y rhanbarth.




Mae cartrefi yn Sir Fynwy yn costio 3 gwaith yn fwy na chartrefi ym Mlaenau Gwent. Ond rhan o'r stori yn unig ydy gallu talu rhent neu forgais.




Mae costau byw yn codi. Mae llawer o gartrefi yn gallu bod yn llawer mwy **effeithlon o ran ynni**. Mae hyn yn meddwl defnyddio llai o ynni i wneud pethau fel gwresogi a goleuo ein cartrefi.

Fe fydd cael cartrefi sy'n fwy effeithlon o ran ynni ac wedi'u hinswleiddio yn:



- Helpu pobl i gadw'n iach yn hirach.
- Costau ynni is.
- Darparu swyddi lleol da.
- Amddiffyn yr amgylchedd.




Mae angen i gartrefi fod yn y llefydd iawn i bobl. Fe ddylai pobl allu cyrraedd siopau, gwaith, ysgol, gofal iechyd, trafnidiaeth gyhoeddus, a gweithgareddau hamdden  yn hawdd.

Rydyn ni'n gwybod, oherwydd newid hinsawdd, ei bod hi'n debygol y bydd mwy:



- Llifogydd
- Stormydd
- Tywydd poeth
- A digwyddiadau tywydd eraill



Mae angen i gartrefi allu ymdopi â'r digwyddiadau tywydd hyn.



Mae cymunedau'n newid. Mae gennym ni fwy o bobl hŷn, pobl sy'n byw ar eu pen eu hunain a theuluoedd cyfunol. Mae'r rhain yn deuluoedd lle mae gan gyplau blant o berthynas yn y gorffennol. Ac efallai plant gyda'i gilydd hefyd.



Mae angen i gartrefi gyd-fynd â'r anghenion newidiol hyn.



Rydyn ni am weithio gyda'n gilydd i wella cartrefi yng Ngwent. Ond fe fydd yn cymryd peth amser i ddeall sut rydyn ni'n gallu gwneud hyn, oherwydd mae yna reolau a photiau gwahanol o arian ar gael i'r gwahanol sefydliadau yn ein partneriaeth.



**Cam 3. Gweithredu i ostwng faint o garbon rydyn ni'n ei adael i ffwrdd. Helpu Gwent i ddelio â newid hinsawdd a diogelu ein hamgylchedd.**



Amddiffyn ein hamgylchedd ar gyfer pobl Cymru yn y dyfodol ydy un o'n heriau mwyaf.



Mae'r ffordd rydyn ni'n byw yn rhoi natur o dan bwysau. Mae angen i ni feddwl am ein **hamgylchedd** i allu gwella **llesiant**.



Mae ein cymunedau yn teimlo effeithiau newid hinsawdd trwy bethau fel llifogydd, llygredd aer a thywydd poeth iawn.



Mae rhai cymunedau'n profi'r pethau yma yn fwy nag eraill. Rydyn ni am gefnogi ein cymunedau i allu delio â'r pethau yma.



Rhaid i ni leihau faint o garbon rydyn ni'n ei ollwng – mae carbon yn gwneud niwed i'r amgylchedd. Rydyn ni'n gallu gwneud hyn drwy bethau fel:

- Ynni adnewyddadwy - ynni sy'n dod o bethau na fydd yn rhedeg allan. Fel o'r haul, gwynt, a dŵr.




- Cynyddu faint o fwyd lleol sydd ar gael.
- Gostwng gwastraff.



- Newid sut rydyn ni'n teithio o amgylch Gwent.



Fe fyddwn ni'n cefnogi **prosiectau gwyrdd a gofod glas** cymunedol.  Mae'r rhain yn brosiectau sy'n cyflwyno a gofalu am fannau gwyrdd yn ein cymunedau. Fel parciau a dolydd. Neu edrych ar ôl ein hafonydd, ein llynnoedd, a'n tiroedd gwlyb.

**Cam 4. Gweithredu i wneud pethau'n fwy teg a chyfartal, yn enwedig iechyd**




Mae llawer o bethau yn effeithio ar iechyd a **llesiant** pobl:











- Aer glân
- Dŵr a bwyd
- Swyddi da
- Cartrefi da
- Siopau lleol
- Diwylliant a gweithgareddau hamdden
- Addysg dda
- Trafnidiaeth dda
- Rhwydweithiau cymdeithasol
- Gwybodaeth iechyd a gofal




Fe fyddwn ni yn defnyddio’r 8 Egwyddor Marmot sydd wedi cael eu rhestru ar **dudalen 12** i arwain ein gwaith yn y maes yma.



Fe fydd hyn yn ein helpu i ddeall y prif achosion am iechyd gwael ac anghydraddoldeb yng Ngwent.




Mae’r **Sefydliad Tegwch Iechyd** hefyd yn ysgrifennu adroddiad i wneud argymhellion ar gyfer beth rydyn ni’n gallu ei wneud i leihau anghydraddoldeb. Fe fyddwn ni yn defnyddio’r adroddiad yma i ysgrifennu ein cynllun gweithredu ar gyfer y cam yma.



**Cam 5. Helpu a chefnogi pobl a chymunedau i gael eu cysylltu, gwneud yn dda a bod yn ddiogel.**



Yn ystod COVID daeth ein cymunedau at ei gilydd i gefnogi ei gilydd mewn cyfnod o angen.




Ond mae’r argyfwng costau byw a rhyfel yn Wcráin wedi gwneud anghydraddoldeb a **thlodi** yn  waeth.



Dydy rhai pobl ddim yn teimlo eu bod nhw yn cael eu croesawu, yn ddiogel neu’n cael eu cefnogi fel y dylen nhw. Mae hyn yn gallu bod oherwydd eu bod yn hŷn, yn sâl neu mewn perygl o bethau fel llifogydd, camddefnyddio cyffuriau, **hiliaeth**, neu drais.



**Rydyn ni angen:**

- Cartrefi diogel a fforddiadwy sy’n ateb anghenion pobl.



- Mynediad at weithgareddau chwaraeon, hamdden a **diwylliannol**.



- Cyfleoedd i gymryd rhan yn y pethau yma drwy waith cyflogedig neu wirfoddoli yn eu dewis iaith.



Mae gennym ni adeiladau hanesyddol a mannau arbennig ar draws Gwent rydyn ni'n gallu eu defnyddio ar gyfer pethau fel prosiectau celfyddydol a gweithgareddau eraill.




Mae cymunedau angen trafnidiaeth dda a dibynadwy sy'n helpu pobl i gael mynediad at wasanaethau, cyrraedd y gwaith, mynd i ddigwyddiadau ac ymweld â theulu a ffrindiau. Yn ddiogel, yn rhad ac mewn ffordd sy'n well i'r amgylchedd.



Mae gennym ni gefn gwlad hardd mae pobl yn gallu ei ddefnyddio ar gyfer ymarfer corff a hwyl. Fe fyddai hyn yn helpu i wella iechyd a **llesiant**. Ac fe fydd yn rhoi cyfleoedd i leihau effaith newid hinsawdd.

# Beth sy'n digwydd nesaf?





Yn ystod blwyddyn gyntaf y cynllun yma, fe fyddwn ni'n ysgrifennu cynlluniau cyflawni. Fe fyddan nhw'n egluro'n fanwl sut y byddwn ni yn gwneud y 5 cam.



Fe fyddwn ni yn gweithio gydag eraill i ddeall beth sydd angen cael ei wneud. A'r ffordd orau i'w wneud. Fe fyddwn ni'n gweithio gyda:

- Grwpiau Cyflawni Lleol
- Partneriaid
- Cymunedau
- Cynghorau tref a chymuned
- Grwpiau gwirfoddol




Fe fyddwn ni yn defnyddio'r cynlluniau cyflawni i'n helpu i ysgrifennu'r adroddiad blynyddol cyntaf. Fe fydd hyn yn dweud pa waith rydyn ni wedi'i wneud ar y camau hyd yma.



Efallai bod yna waith rydyn ni'n gallu ei wneud yn syth. Fel darganfod mwy am sut mae lleoedd eraill wedi delio gyda  materion.



Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr bod unrhyw waith rydyn ni'n ei wneud nawr yn cefnogi ein hamcanion tymor hir a'r 5 cam.

# Geiriau Anodd

## Asesiad Llesiant

Mae asesiad llesiant yn ffordd o edrych ar lesiant ein hardal. A beth sy'n bwysig i ni at gyfer ein llesiant yn y  dyfodol.

## Cynaliadwy

Mae cynaliadwy yn meddwl helpu rhywbeth i bara am amser hir.

## Cyrff cyhoeddus

Cyrff cyhoeddus ydy sefydliadau sy'n cael arian gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwasanaethau i bobl yng Nghymru. Er enghraifft, y GIG a'r gwasanaethau tân ac achub.

## Diwylliant

Diwylliant ydy ein gwerthoedd cyffredin, credoau, traddodiadau a hanes. Mae'n meddwl pethau fel adeiladau, iaith, cerddoriaeth a'r celfyddydau.

## Egwyddorion

Set o werthoedd neu gredoau sy'n sail i'r ffordd rydyn ni'n gweithio ac yn ymddwyn ydy egwyddorion. Fe fyddwn ni  i gyd yn gweithio ac yn gwneud penderfyniadau gyda'r egwyddorion hyn mewn golwg.

## Gwahaniaethu

Gwahaniaethu ydy pan fyddwch chi yn cael eich trin yn wael neu'n annheg oherwydd pethau fel eich rhyw, hil, crefydd, anabledd neu hunaniaeth rywiol.

## Hiliaeth

Mae hiliaeth yn driniaeth annheg neu gas o bobl oherwydd eu hil.

## Llesiant

Mae llesiant yn meddwl sut rydyn ni yn gwneud fel pobl, cymunedau ac fel rhanbarth. Nawr ac yn y dyfodol.

Mae llesiant yn meddwl ein profiadau fel pobl, pa mor braf ydy'r amgylchedd o'n cwmpas a sut rydyn ni yn byw gyda'n gilydd fel cymuned.

## Tlodi

Tlodi ydy pan nad oes gennych chi ddigon o arian i dalu am y pethau rydych chi eu hangen ac eisiau i fyw yn dda.